

Mick Antoniw AS
Y Cwnsler Cyffredinol

24 Ebrill 2024

Annwyl Mick

Is-ddeddfwriaeth yn cael ei gosod yn y Senedd yn Saesneg yn unig

Fel Pwyllgor, rydym wedi ceisio gwybodaeth yn ddiweddar i ddeall yn well unrhyw rwystrau sy'n atal peth is-ddeddfwriaeth rhag cael ei gosod yn y Senedd yn Gymraeg ac yn Saesneg. Yn ogystal â'i gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar ddigwyddiadau o'r fath yn unol â Sefydlog 21.2(ix), credwn ei bod yn fater pwysig o egwyddor y caiff y ddwy iaith eu trin yn gyfartal yn y Senedd.

Byddwch yn ymwybodol mai ymateb Llywodraeth Cymru i bwyntiau adrodd o dan Reol Sefydlog 21.2(ix) yw, oherwydd bod y mathau perthnasol o is-ddeddfwriaeth – yr hyn a ystyrir yn offerynnau statudol ar y cyd, offerynnau statudol cyfansawdd, a Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor – yn ddarostyngedig i waith craffu gan Senedd y DU, na fernir ei bod yn rhesymol ymarferol iddynt gael eu gwneud neu eu gosod yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi datgan nad oes unrhyw brosesau seneddol arferol yn bodoli i osod rheoliadau yn Gymraeg ac yn Saesneg gerbron Senedd y DU.

Mae'n debyg y byddwch hefyd yn ymwybodol bod y pwyllgorau a ragflaenodd fy Mhwyllgor i wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ynghylch y mater hwn. Er enghraifft, ym mis Tachwedd 2018, cafodd Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Pedwerydd Cynulliad ymateb gan Carwyn Jones AC, y Prif Weinidog ar y pryd, a gadarnhaodd safbwynt Llywodraeth Cymru fel y nodir uchod.

Felly penderfynodd y Pwyllgor ysgrifennu at bwyllgorau perthnasol Senedd y DU i ofyn am eu barn ynghylch safbwynt Llywodraeth Cymru. Cafwyd ymatebion i'r ohebiaeth honno ym mis Ionawr 2024. Mae'r ymatebion wedi'u cynnwys yn llawn ym mhapurau ein cyfarfod ar 19 Chwefror 2024; fodd bynnag, hoffwn dynnu eich sylw at rai o'r safbwyntiau a fynegwyd gan y pwyllgorau hyn yn Senedd y DU.

Dywedodd Cadeirydd Pwyllgor Gweithdrefnau Tŷ'r Cyffredin wrth y Pwyllgor:

There is no procedural or other bar to a statutory instrument that contains text in Welsh, including bilingual instruments, being laid before the House of Commons if the relevant Act requires it to be. As you know, this already regularly happens.

Yn yr un modd, dywedodd Cadeirydd Pwyllgor Gweithdrefnau a Breintiau Tŷ'r Arglwyddi wrth y Pwyllgor:

I can confirm that no procedural barriers exist in the House of Lords that would prevent the laying of a statutory instrument before the House in the form of two distinct texts in English and Welsh, where both texts have equal status in law.

Mae'n ymddangos i ni o'r ymatebion hyn na fyddai unrhyw rwystr gweithdrefnol yn Senedd y DU a fyddai'n rhwystr rhag gosod offeryn statudol cwbl ddwyieithog.

Yng ngoleuni'r wybodaeth yr ydym wedi'i chael, byddwn yn ddiolchgar pe gallech nodi a ydych yn cytuno â'n barn, ac os nad ydych chi, a allwch chi egluro pam nad ydych chi'n cytuno. Byddwn hefyd yn ddiolchgar pe gallech egluro a ydych yn ystyried bod unrhyw rwystrau eraill yn bodoli rhag gosod offeryn statudol cwbl ddwyieithog yn Senedd y DU.

Yn gywir



Sarah Murphy
Cadeirydd

